# Arolygiad deintyddol – Arolygiad Dilyn Cynnydd (Lle rhoddwyd rhybudd)

mydentist, IDH Crucywel

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 4 Awst 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-4734-9587-6

© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. What we did ........ 5
2. Summary of our inspection ........ 6
3. What we found ........ 7

   Quality of patient experience ........ 8

   Delivery of safe and effective care ........ 10

   Quality of management and leadership ........ 13

4. What next? ........ 14
5. How we conduct follow-up inspections ........ 15

   Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection ........ 16

   Appendix B – Immediate improvement plan ........ 17

   Appendix C – Improvement plan ........ 18

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad dilyn cynnydd lle rhoddwyd rhybudd o mydentist, IDH Crucywel, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 20 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid (deintydd).

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau dilyn cynnydd yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr holl welliannau a argymhellwyd wedi cael eu gwneud ac roedd archwiliadau rheolaidd ar waith er mwyn cynnal safonau da.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gyfeillgar, yn gymwys, ac yn deall eu swyddogaethau
- Roedd cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant
- Roedd y practis yn cynnig gwasanaeth diogel ac effeithiol
- Roedd tystiolaeth o reoli ac arweinyddiaeth amlwg
- Roedd adeiladwaith mewnol yr adeilad wedi cael ei wella llawer

Gwnaethom un argymhelliad o ganlyniad i'n harolygiad. Roedd hwn yn ymwneud â deintyddion yn trafod opsiynau triniaeth gyda chleifion.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Arolygwyd mydentist IDH Crucywel gan AGIC ddiwethaf ar 13 Awst 2015.

Roedd y prif feysydd yr oedd angen eu gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i IDH ystyried canfyddiadau'r arolygiad mewn perthynas â deintyddion unigol a chadw cofnodion a rhoi cynllun ysgrifenedig i AGIC o ran sut mae'n bwriadu cynorthwyo rheolwr y practis i sicrhau bod rheolaeth ddigonol o berfformiad y deintyddion sy'n gweithio yn y practis a'u bod yn atebol. Dylai ansawdd y drefn o gadw cofnodion fod yn ganolbwynt brys ar gyfer rheoli perfformiad.

- Mewn perthynas â defnyddio cyfarpar radiograffig: Rhaid i'r practis enwebu unigolyn arweiniol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn glynu wrth y rheoliadau, ac yn ystyried arferion gorau a chanllawiau a gyhoeddwyd. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei hysbysu (neu'n cael tystiolaeth bod hyn wedi'i wneud eisoes) bod offer radiograffig yn cael eu defnyddio ar y safle. Pan gaiff hyn ei gwblhau, dylid anfon tystiolaeth ohono at AGIC.

- Dylai IDH edrych ar ffyrdd eraill o wella'r man y tu cefn i'r practis, a dylai gyflwyno cynllun gwella i AGIC yn amlinellu eu cynigion.

- Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl ddeintyddion yn esbonio ac yn trafod y dewisiadau o ran triniaethau mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer y claf unigol. Byddai'n fuddiol pe bai deintyddion yn sicrhau bod cleifion yn deall hefyd.

Diben yr arolygiad hwn oedd dilyn cynnydd y camau a weithredwyd er mwyn cywiro'r gwelliannau gofynnol a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Yn ystod ein harolygiad, cafodd nifer o holiaduron boddhad cleifion eu dosbarthu a'u dychwelyd, ac er na chawsant eu cynnwys o fewn gofynion y camau dilyn cynnydd, roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol i archwilio'r sylwadau.

### Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilyn cynnydd

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn"*

*"Roeddwn i mor ofnus wrth fynd at y deintydd o'r blaen, ond ers imi ddod yma, does dim pryderon gen i o gwbl"*

"Credaf nad yw'r dewisiadau o ran triniaethau yn cael eu hesbonio na'u trafod bob amser - mae'r deintydd ond yn gwneud triniaethau. Weithiau mae'n teimlo fel eu bod yn rhuthro ymlaen i'r claf nesaf. Mae staff y dderbynfa bob amser yn gynorthwyol ac yn gyfeillgar."

Ar y cyfan, roedd yr atebion o'r holiaduron yn gadarnhaol, a dywedodd cleifion eu bod yn cael croeso cynnes bob amser, nid oedd unrhyw oedi, ac, os bu oedi, nid oedd hyn am yn hir ac roedd y cleifion yn cael eu hysbysu bob amser. Yn ddieithriad, roedd pawb yn fodlon ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y practis deintyddol.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Er y cafwyd atebion cadarnhaol ar y mwyaf, mae un o'r sylwadau a wnaed gan glaf (uchod) yn awgrymu ar adegau efallai nad yw deintyddion yn trafod nac yn esbonio dewisiadau mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer yr holl gleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl ddeintyddion yn esbonio ac yn trafod dewisiadau o ran triniaethau mewn ffordd sy'n briodol i'r claf unigol. Byddai'n fuddiol pe bai deintyddion yn sicrhau bod cleifion yn deall hefyd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Cawsom sicrwydd bod yr holl feysydd a nodwyd i'w gwella wedi derbyn sylw boddhaol. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth effeithiol mewn amgylchedd diogel ar gyfer cleifion a'r staff.

### Pa welliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Dylai IDH edrych ar ffyrdd eraill o wella'r man y tu cefn i'r practis, a dylai gyflwyno cynllun gwella i AGIC yn amlinellu eu cynigion.
- Mewn perthynas â defnyddio cyfarpar radiograffig: Rhaid i'r practis enwebu person arweiniol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn glynu wrth y rheoliadau, ac yn ystyried arferion gorau a chanllawiau a gyhoeddwyd. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei hysbysu (neu gael tystiolaeth bod hyn wedi'i wneud eisoes) bod offer radiograffig yn cael eu defnyddio ar y safle. Pan gaiff hyn ei gwblhau, dylid anfon tystiolaeth ohono at AGIC.

### Pa gamau a ddywedodd y gwasanaeth y byddent yn eu cymryd

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwymo i gymryd y camau canlynol yn eu cynllun gwella:

- Ar hyn o bryd, mae archwiliadau o gardiau cofnodi'n cael eu cynnal yn fisol, ac yn cael eu hadolygu'n chwarterol gan y rheolwr ardal/rheolwr cymorth clinigol. Bydd archwiliadau pelydr-X ac archwiliadau rhagnodi'n cael eu cwblhau'n rheolaidd. Mae'r deintyddion yn cael ymweliadau gan y rheolwr cymorth clinigol, a fydd yn monitro perfformiad ac yn cynhyrchu cynllun gweithredu o unrhyw welliannau sydd eu hangen. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd.

- Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi darparu hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd i'r holl reolwyr, a nhw yw'r unigolion cyfrifol a fydd yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu cadw'n gyfredol. Mae gan bob clinigydd statws goruchwylydd amddiffyn rhag ymbelydredd, a gall pob un weithio gyda'r rheolwr yng nghyswllt unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag ymbelydredd. Bydd y rheolwr cymorth clinigol yn adolygu'r archwiliadau radiograffeg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau. Mae'r cwmni wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod sganiau pelydr-X yn cael eu cynnal. Anfonwyd tystiolaeth gyda'r cynllun gweithredu hwn.
- Gwnaed gwelliannau i'r man allanol drwy selio'r holl geudodau o gwmpas rhan allanol yr adeilad. Bydd y rheolwr yn monitro'r man allanol yn rheolaidd ac yn cadw mewn cyswllt â'r landlord a'i gymydog, ac yn codi unrhyw bryderon ar unwaith.

## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilyn cynnydd

### Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mydentist wedi cyflwyno cynllun gweithredu i AGIC yn disgrifio sut y byddent yn rhoi sylw ac yn ymdrin â'r problemau y tu cefn i'r adeilad. Wrth inni arolygu'r man, canfuom ei fod yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roedd tri o finiau ar gyfer gwastraff a oedd wedi'u cloi ac yn ddiogel. Roedd yr eiddo drws nesaf wedi prynu bin hefyd, a oedd yn cael ei gadw mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cydberthnasau rhwng y cymydog a'r practis wedi gwella a bod ffiniau'r eiddo bellach yn cael eu parchu. Roeddem yn fodlon nad oedd unrhyw risg iechyd a diogelwch ychwanegol.

### Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O ran defnyddio cyfarpar radiograffig, roedd mydentist wedi cyflwyno copi o'r Ffeil Amddiffyn Rhag Ymbelydredd i AGIC, cadarnhad o hysbysiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac esboniad mai rheolwr y practis fyddai'r arweinydd enwebedig gyda chymorth gan bob deintydd ar gyfer arbenigedd clinigol pan fo angen. Wrth arolygu, gwelsom fod y rheolau lleol yn amlwg iawn ar waliau pob ystafell driniaeth, gydag enwau pob deintydd wedi'u nodi fel arweinwyr. O ganlyniad, roeddem yn fodlon bod y gofynion radiograffeg a nodwyd wedi cael eu bodloni.

O ran yr ystafell ddadheintio, gwnaethom un awgrymiad i'r practis o ran gosod arwyddion yn yr ystafell ddadheintio er mwyn dangos cyfeiriad y broses yn glir. Hefyd, er bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant, gwnaethom awgrymu y gallai'r broses gael ei lamineiddio a'i gwneud yn weledol ar wal yr ystafell ddadheintio er mwyn caniatáu i staff newydd fod yn gyfarwydd â'r drefn ar unwaith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a chanfuom fod pob un ohonynt o safon foddhaol. Dywedwyd wrthym fod deintyddion newydd wedi cael eu cyflogi yn y practis a bod hyn wedi cynnig cyfle i ailymweld a gosod safonau gwell o ran cadw cofnodion.

Gwnaethom ofyn sut roedd y sefydliad yn cefnogi rheolwr y practis ac a oedd y gefnogaeth hon yn effeithiol, a dywedwyd wrthym fod strwythurau newydd wedi cael eu rhoi ar waith lle'r oedd cefnogaeth glinigol a rheolaethol yn weledol ac yn hygyrch iawn. Roedd yn ymddangos bod y practis yn cael ei reoli'n dda, ac roedd pob aelod o'r staff yn deall ei swyddogaeth a'r hyn a ddisgwylid ganddo.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Ni chafodd y maes hwn ei arolygu ar yr adeg hon.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilyn cynnydd

Gall ein harolygiadau dilyn cynnydd fod naill â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael hyd at 12 wythnos o rybudd o am yr arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilyn cynnydd yw gweld pa welliannau mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilyn cynnydd yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Golyga hyn y byddwn ond yn canolbwyntio ar y Safonau Iechyd a Gofal sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilyn cynnydd, byddwn bob amser yn ystyried agweddau perthnasol ar:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill ac sydd angen eu gwneud.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: IDH, mydentist, Crucywel

## Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion o sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: IDH, mydentist, Crucywel

### Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl ddeintyddion yn esbonio ac yn trafod yr opsiynau o ran triniaethau mewn ffordd sy'n briodol i'r claf unigol. Byddai'n fuddiol pe bai deintyddion yn sicrhau bod cleifion yn deall hefyd. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Cyfarfod practis i'w gynnal i sicrhau bod deintyddion yn trafod opsiynau ar gyfer triniaeth. Unwaith y rhoddir opsiynau maent i'w cynnwys mewn ysgrifen ar FP17DC lle mae claf angen i lofnodi. Ar ôl y cyfarfod bydd rhaid I pob holl ddeintyddi gwblhau templed ysgrifennedig myfyriol er mwyn egluro dealltwriaeth.<br><br>Bydd archwiliadau chwarterol cofnod cerdyn yn cael ei gwblhau dau dros y 6 mis nesaf i sicrhau bod y wybodaeth | Rheolwr y practis | Cyfarfod i drafod ei gwblhau cyn 21ain Awst 2018 gyda'r archwiliadau yn cael ei chwblhau yn ym mis Medi a mis Rhagfyr 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | hon yn cael ei drafod â chleifion a wedi'u cofnodi ac adolygu yn cyfarfodydd tîm | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw welliannau | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Sarah-Jane Davies**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 21 Gorffennaf 2017**